**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**ADRAN 23 DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

## CROESFAN ARFAETHEDIG I GERDDWYR AR COED ONN ROAD, Y FFLINT

**RHODDIR RHYBUDD** drwy hyn fod Cyngor Sir y Fflint, drwy arfer ei bwerau dan Adran 23 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig;

a) Gosod Croesfan Cerddwyr Sebra yn y lleoliad fel y disgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

**Rheswm dros y Cynnig:** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi Coed Onn Road, y Fflint fel lleoliad addas i osod cyfleuster croesfan sebra. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i osod croesfan a fydd yn helpu i sicrhau siwrneiau cynaliadwy i'r ysgol. Bydd y groesfan yn helpu i leddfu pryderon diogelwch mewn perthynas â mynediad uniongyrchol i'r ysgol yn ogystal â sicrhau buddion i'r gymuned ehangach.

Bydd y gwaharddiadau arferol yn erbyn cerbydau yn stopio, aros, llwytho a dadlwytho ar y gerbydffordd o fewn yr ardaloedd â llinellau igam ogam ar naill ochr y groesfan yn berthnasol.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad, y cynlluniau sy'n dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt gan y cynnig, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig y Croesfan, yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan Sir y Fflint yn Cysylltu, Stryd yr Eglwys, y Fflint, CH6 5BD. Fe fydd y dogfennau hefyd ar gael ar ein gwefan: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Streetscene/Traffic-regulation-orders.aspx neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn neu e-bost i transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk erbyn dydd Gwener 15 Rhagfyr 2023 gan ddyfynnu cyfeirif SS/TRO/JB/Zebra

## ATODLEN


### Gosod Croesfan Sebra Newydd i Gerddwyr

**Coed Onn Road, y Fflint –** ger y gyffordd gyda Glan Gors

Dyddiedig y 24 Tachwedd 2023



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR




Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Streetscene

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY: NGW

CHECKED BY: LS

SCALE: 1: NTS @ A3

NAT. GRID REF: 327837 363930

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |

**Coed Onn Road**
**Y FFlint**

Croesfan Sebra Arfaethedig
Proposed Zebra Crossing
(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER

| HT/23/CORF | 101 | P1 |
|---|---|---|